



Diwedd Haf 2018, Medi 2ail



Mae oedfa'r bore 'ma dan ofal Eirian, gyda Bethan Herbert yn llywyddu a Sian Elin yn cyfeilio.

Y Suliau Nesaf

Medi'r 9ed - Y Parchg. Aled Edwards, gyda Wendy Reynolds a Bethan Roberts

Medi 16eg - Sul Teuluol, Rhiannon yn cyfeilio

Medi 23ain - Y Parchg. Gethin Rhys, gyda Lowri Roberts a Rhiannon

Medi 30 - Geraint Rees gydag Eleri Huws yn cyfeilio

Hydref 7ed - Cwrdd Pentref dan arweiniad Pentyrch

Hydref 14eg Y Parchg Aled Edwards gyda Wyn Jones

Hydref 21ain - Sul y Cynhaeaf gyda'r Ysgol Sul

Hydref 28ain - Gethin Rhys gyda Helen Prosser

Merched y Tabernacl

Medi 20fed

Cwrdd yn Neuadd Llanelai /Lanelay Hall am 2.15 ar gyfer y te pawns.

Tachwedd 9fed

Mae un sedd ar ôl ar y bws i Lanbed - cysylltwch gyda Ros neu Judith cyn

Medi 14eg os gwelwch yn dda.

Bwydo yn y Tabernacl, Yr Ais: HELP!

Mae ein tro ni yn dod eto i fynd i Tabernacl Caerdydd ar bawn Sul 9fed o Fedi.

Bydd Margaret yn mynd ond mae angen 2 neu 3 arall i'w helpu. Rhif ffon Margaret yw

01443 222908

margaretcavert@mybtinternet.com

Yma yn y Tabernacl nos Sul nesaf



Trip Ysgol Sul

Medi 22ain, 2018



Qedolion: £19

Plant 2-14: £15

Plant o dan 2 oed: Sŵ am ddim ond codir

£7.00 am sedd ar y bws.

Arian erbyn Medi'r 9fed i

Catrin Rees neu Lowri Roberts.

CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL 2018

Cyrhaeddodd gasgliad yr ardal
£3,350 eleni, yn cynnwys £1,700
gan gasglwyr y capel yn Efail Isaf.
Diolch yn fawr i bawb am eu help.

**Bwrdd y Cyfarwyddwyr, nos Fawrth
9 Medi.** Os oes gennych adroddiad
i'w gyflwyno neu fater i'w godi a
wnewch chi gysylltu gyda Gwilym
Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk
neu 01443 225205 / 07710 237327

**Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 8ed
cynhelir ffair haf Efail Isaf.** Mae
ymdrech arbennig ar waith i godi
arian ar gyfer 'cladding' newydd i'r
adeilad. Byddai Caroline Rees yn
falch iawn am help gyda stondin –
ac yn gwerthfawrogi rhoddion ar
gyfer gwobrau raffl neu gacennau
cartref. Plis mynnwch air gyda
carolinerees2@hotmail.com

Rhybudd Perygl

Nid yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn
arbennig felly i blant chwarae ynddi.
Felly apelw'n ar rieni, athrawon yr Ysgol
Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant
yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent
rhag iddynt gael niwed.



CYFAMOD EGLWYSIG Y

TABERNACL: 'Rydym yn gymuned o
bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i
geisio tyfu gyda'n gilydd mewn
dealltwriaeth a gallu i ymarfer
dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

**Mae gwybodaeth reolaidd am y capel
ar ein tudalen Facebook a
www.tabernacl.org**

APÊL MADAGASCAR 2018

Mae apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
eleni'n anelu at godi £200,000 i helpu
Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd.
Bydd yr arian yn cefnogi prosiectau i
ddarparu lloches i ferched bregus,
meddygfa a deintyddfa i bobl anghenus,
cartref i blant amddifad, a chynllun i
hyfforddi gweinidogion i ddysgu'r bobl sut
i dyfu mwy o gnydau er mwyn lliniaru
problemau diffyg maeth.

Daw'r apêl i ben ym mis Mehefin 2019, a'n
gobaith ni fel capel yw casglu £30 gan bob
aelod dros y flwyddyn. Erbyn diwedd mis
Medi bydd amlenni pwrpasol ar gael i bob
aelod gyfrannu yn ôl eu dymuniad, a
chyflenwad i gyfeillion yn ein plith sy'n
awyddus i gefnogi. Mae croeso mawr i
unrhyw un drefnu achlysur fel bore coffi
hefyd, i chwyddo'r coffrau.

Byddai'n braf anelu at godi dros £5,000 fel
coron deilwng ar ymdrechion gloyw
Merched y Tab i groesawu'r bobl o
Fadagascar fu yma yn ystod dathliadau'r
daucanmlwyddiant ym mis Mehefin.

